# Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyhoeddwyd: Chwefror 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 125A2016



Lluniwyd yr Asesiad Corfforaethol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Debra Allen, Andy Bruce, Gwilym Bury, Sian Clark, Jeremy Evans, Paul Goodlad, Nigel Griffiths, Fflur Jones, Huw Lloyd Jones ac Emily Owen, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus ac, wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer Gwella 5

Cyflwyniad 6

Adroddiad manwl

Mae gweledigaeth ac uchelgais Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion, ond gall rhai trefniadau wedi dyddio gyfyngu ar gyflymder y gwelliant hwn 8

Mae arweinyddiaeth gynhwysol y Cyngor wedi pennu gweledigaeth a chyfeiriad strategol clir sydd yn rhoi cefnogaeth effeithiol er mwyn gwella 9

Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd yn gryf ar y cyfan, ond byddai cyd-drefniant gwell rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau craffu yn fuddiol 12

Nid yw'r trefniadau i reoli adnoddau'r Cyngor yn gadarn bob amser, gyda chryfderau wedi'u tanseilio mewn rhai meysydd oherwydd dulliau wedi dyddio a phroblemau capasiti 17

Mae'r Cyngor wedi hen sefydlu dull effeithiol o weithio mewn partneriaeth sy'n sicrhau perfformiad a chanlyniadau gwell 27

Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio gwelliannau, adrodd ar berfformiad a rheoli risg yn gadarn ar y cyfan, ond ceir diffyg cysondeb mewn rhai meysydd 30

Ar y cyd â'i bartneriaid, mae'r Cyngor yn parhau i wella ei berfformiad a'i ganlyniadau ar draws y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth 32

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 33

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o Asesiadau Corfforaethol ar awdurdodau gwella yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd pob awdurdod yn derbyn Asesiad Corfforaethol manwl unwaith bob pedair blynedd, yn ychwanegol at raglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o'r modd y mae cynghorau'n cynllunio ac yn adrodd ar welliannau. Yn y blynyddoedd rhwng yr asesiadau, byddwn yn cadw golwg ar ddatblygiadau drwy roi diweddariadau ar gynnydd.

2 Roedd ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yn canolbwyntio ar y graddau y mae trefniadau'n cyfrannu at wella perfformiad gwasanaethau a'u canlyniadau i ddinasyddion. Ceisiai'r Asesiad Corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion?'

3 Dyma gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol: Mae gweledigaeth ac uchelgais Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion, ond gall rhai trefniadau wedi dyddio gyfyngu ar gyflymder y gwelliant hwn. Daeth i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae arweinyddiaeth gynhwysol y Cyngor wedi pennu gweledigaeth a chyfeiriad strategol clir sydd yn rhoi cefnogaeth effeithiol er mwyn gwella;
- mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd yn gryf ar y cyfan, ond byddai cyd-drefniant gwell rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau craffu yn fuddiol;
- nid yw'r trefniadau i reoli adnoddau'r Cyngor yn gadarn bob amser, gyda chryfderau wedi'u tanseilio mewn rhai meysydd oherwydd dulliau wedi dyddio a phroblemau capasiti:
  - mae hanes o gynllunio ariannol doeth, a rheolaeth gref ar gyllidebau yn creu seiliau cryf ar gyfer rhaglen newid bellgyrhaeddol y Cyngor;
  - mae trefniadau cynllunio'r gweithlu wedi'u hintegreiddio'n dda, ond gall systemau hen ffasiwn ar gyfer rheoli pobl, pwysau o ran capasiti a galluogrwydd, a materion diwylliannol arafu'r cynnydd;
  - mae'r rheolaeth strategol ar asedau'n gadarn ar y cyfan, ond mae wedi ei danseilio gan drefniadau rheoli perfformiad a chronfeydd ddata sydd ddim yn gyfan gwbl effeithiol; ac
  - mae technoleg gwybodaeth a'r rheolaeth ar wybodaeth yn cefnogi gwasanaethau, ond nid yw'r Cyngor yn gallu manteisio ar werth llawn y swyddogaethau galluogi hyn;
- mae'r Cyngor wedi hen sefydlu dull effeithiol o weithio mewn partneriaeth;
- mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio gwelliannau, adrodd ar berfformiad a rheoli risg yn gadarn ar y cyfan, ond ceir diffyg cysondeb mewn rhai meysydd; ac
- ar y cyd â phartneriaid, mae'r Cyngor yn parhau i wella perfformiad ar draws y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth.

## Cynigion ar gyfer Gwella

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C1 | Llywodraethu:<br>• Sicrhau bod adroddiadau i'r Aelodau, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys dadansoddi data, wedi'u geirio'n glir, er mwyn hyrwyddo penderfyniadau deallus.<br>• Sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd cyhoeddus yn cofnodi ac yn rhoi esboniad clir o'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfarfod.<br>• Cydgysylltu blaenraglenni gwaith yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau cydweithio di-dor rhwng cyfarfodydd craffu a'r Bwrdd Gweithredol. |
| C2 | Y Defnydd o Adnoddau - Pobl:<br>• Sicrhau capasiti digonol i ddarparu cefnogaeth AD effeithiol ar gyfer y Rhaglen Ail-lunio ac ar gyfer materion arferol sy'n gysylltiedig â'r gweithlu.<br>• Sicrhau bod gan yr holl reolwyr llinell y capasiti a'r gallu i ymdrin â materion arferol sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, yn enwedig materion sy'n gysylltiedig ag absenoldeb salwch y staff.<br>• Sicrhau bod systemau a phrosesau ar gyfer hysbysu, monitro, recordio ac adrodd absenoldeb salwch yn effeithlon, effeithiol ac yn gallu darparu data amserol a manwl gywir. |
| C3 | Y Defnydd o Adnoddau - Asedau:<br>• Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad asedau a sefydlu cronfa ddata addas i'r diben i gefnogi'r trefniadau hynny. |
| C4 | Y Defnydd o Adnoddau - TGCh a Rheoli Gwybodaeth:<br>• Datblygu a gweithredu Strategaeth TGCh sy'n ategu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth, yn trafod anghenion busnes cyfredol a thymor canolig, ac sydd wedi'i halinio'n glir â blaenoriaethau strategol y Cyngor.<br>• Adnewyddu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth:<br>– alinio'r Strategaeth â blaenoriaethau strategol y Cyngor; ac<br>– egluro'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Strategaeth mewn modd effeithiol. |
| C5 | Cynllunio ar gyfer Gwella<br>• Sicrhau dull cyson a chadarn o reoli risg ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. |

## Cyflwyniad

4 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o Asesiadau Corfforaethol ar awdurdodau gwella yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd pob Cyngor yn derbyn Asesiad Corfforaethol manwl unwaith bob pedair blynedd, yn ogystal ag astudiaethau o raglenni blynyddol ar gyfer gwella ac archwiliadau o'r modd y mae cynghorau'n cynllunio ac yn adrodd ar welliannau. Yn y blynyddoedd rhwng yr asesiadau, byddwn yn cadw golwg ar ddatblygiadau. Yn ein gwaith asesu pellach, byddwn hefyd yn canolbwyntio ar sawl thema allweddol a ddatblygir yn seiliedig ar drafodaeth gyda phob Cyngor.

5 Cynhaliom ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) yn ystod mis Hydref 2015. Nid yw'r Asesiad Corfforaethol yn anelu i roi dadansoddiad cynhwysfawr o berfformiad holl wasanaethau'r Cyngor. Yn lle hynny, y mae'n adrodd ar ganlyniadau'r Cyngor a'i hanes o berfformio, yn ogystal â'r trefniadau allweddol sydd eu hangen yn sail ar gyfer gwelliannau i wasanaethau a swyddogaethau.

6 Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi creu darlun o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni, sut y mae'n mynd ati i wneud hynny, a'r cynnydd y mae wedi'i wneud.

7 Ni ddylid ystyried bod y casgliad hwn yn rhoi datganiad pendant ynghylch sefyllfa'r sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, i'r graddau y gellir casglu hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

8 Roedd ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yn canolbwyntio ar y graddau y mae trefniadau'n cyfrannu at wella perfformiad gwasanaethau a'u canlyniadau i ddinasyddion. Ceisiai'r asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol: **'A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion?'**

9 Mae'r Asesiad Corfforaethol yn trafod y canlynol:

**Gweledigaeth a chyfeiriad strategol:**

- 'A yw gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor yn cefnogi gwelliant?'

**Llywodraethu ac atebolrwydd:**

- 'A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn cefnogi proses gadarn ac effeithiol o wneud penderfyniadau?'

**Y Defnydd o Adnoddau:**

- 'A yw'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau yn effeithiol er mwyn cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo o ran perfformiad a chanlyniadau?'

**Cydweithio a phartneriaethau:**

- 'A yw trefniadau cydweithio a phartneriaeth y Cyngor yn gweithio'n effeithiol er mwyn gwella perfformiad a chanlyniadau?'

**Rheoli gwelliant:**

- 'A yw'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella mewn modd effeithiol?'

**Perfformiad a chanlyniadau:**

- 'A yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd wrth gyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo o ran perfformiad a chanlyniadau?'

10 Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd, ac oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa wrth gwblhau'r gwaith hwnnw.

11 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi cael hyd i bethau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - byddwn yn gwneud y cynigion hynny yn yr adroddiad hwn ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith. Nid oes unrhyw reswm gennym i wneud argymhellion o'r fath;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion. Nid oes unrhyw reswm gennym i gynnal arolygiad o'r fath; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd. Nid oes unrhyw reswm gennym i wneud argymhelliad o'r fath.

12 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Cewch rannu eich safbwyntiau â ni drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu anfon llythyr i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

# Adroddiad manwl

Mae gweledigaeth ac uchelgais Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion, ond gall rhai trefniadau wedi dyddio gyfyngu ar gyflymder y gwelliant hwn



# Mae arweinyddiaeth gynhwysol y Cyngor wedi pennu gweledigaeth a chyfeiriad strategol clir sydd yn rhoi cefnogaeth effeithiol er mwyn gwella

## Mae gan y Cyngor weledigaeth a chyfeiriad strategol clir sy'n seiliedig ar flaenoriaethau rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol ac sy'n hyrwyddo canlyniadau gwell i bobl leol

13 Gweledigaeth y Cyngor yw bod yn arweinydd cryf yn y gymuned sy'n cefnogi ac yn galluogi'r fwrdeistref sirol a'i phobl i wireddu eu potensial ac i ffynnu. Cynllun y Cyngor 2015-16, a chanddo dair thema strategol ryng-gysylltiedig a thema gorfforaethol, yw'r cynllun cyffredinol sy'n helpu'r Cyngor i ganolbwyntio ei adnoddau ac ysgogi gwelliant.

14 Mae'r themâu strategol yn gyson â'r blaenoriaethau a rennir yn y Cynllun Integredig Sengl (Ein Cynllun Ni ar gyfer Wrecsam 2013-14) a ddatblygwyd gan y Cyngor a'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl), ac yn cyfrannu at y blaenoriaethau hynny. Dyma'r themâu strategol:

- Yr Economi: creu economi fywiog, amrywiol a chynhwysol;
- Pobl: codi dyheadau, creu hyder a hyrwyddo cyfleoedd; a
- Lle: buddsoddi mewn cymunedau deniadol, diogel a chroesawgar i bawb.

15 Datblygwyd Cynllun y Cyngor yn wreiddiol yn 2012. Caiff ei ddiweddaru'n flynyddol, mewn ymateb i'r cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol newidiol. Cefnogir y themâu strategol a gweithredol yn y Cynllun gan 15 o ganlyniadau a blaenoriaeth sy'n rhoi disgrifiad clir o'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni. Mae Cynllun 2015-16 hefyd yn diffinio Dull Wrecsam, sef y fframwaith y mae'r Cyngor yn bwriadu ei ddefnyddio i wireddu ei weledigaeth. Mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd llawn ymddiriedaeth, gwella canlyniadau mewn modd effeithlon ac ail-fframio'i berthynas â'r cyhoedd.

16 Mae gweledigaeth y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymiad clir at welliant parhaus a gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd uchel. Mae'r Cyngor yn gwrando ar faterion a godir gan randdeiliaid ac yn ymateb iddynt, ac mae anghenion a dyheadau'r rhanddeiliaid hynny'n dylanwadu ar weledigaeth a chynlluniau strategol y Cyngor. Er enghraifft, dylanwadodd dau ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar ganlyniadau â blaenoriaeth 2015-17. Roedd yr ymarferion hynny'n archwilio blaenoriaethau a chynigion gwasanaethau er mwyn bodloni'r pwysau cynyddol ar y gyllideb. Defnyddiwyd canlyniadau'r ymgynghoriad yn sail ar gyfer gweithdai gosod targedau'r Aelodau, gan arwain at gynnydd mewn dyraniadau cyllideb ar gyfer rhai meysydd gwasanaeth â blaenoriaeth.

17 Mae'r Cyngor yn anelu i sicrhau cymaint o fudd â phosib yn sgil gwaith partneriaeth er mwyn hyrwyddo gwelliant. Y mae wedi diffinio meini prawf ar gyfer cydweithio, sy'n seiliedig ar y budd a ragwelir yn sgil hynny i'r Cyngor ac i'r fwrdeistref sirol.

18 Mae'r Cyngor yn cyflwyno newidiadau sylfaenol i'w fodel gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y dyfodol. Y mae'n ail-lunio ei ffordd o weithredu, drwy ddefnyddio Partner Ail-lunio a benodir i gynyddu cyflymder, arbenigedd a chapasiti.

## Mae arweinyddiaeth y Cyngor yn agored a chynhwysol ac yn hyrwyddo gwelliant parhaus ar draws yr holl weithgareddau

19 Mae'r aelodau a'r swyddogion yn hyrwyddo a chyfleu gweledigaeth y Cyngor yn glir, ac yn darparu neges arweinyddol gyson, weladwy a chyffredin i staff a phartneriaid. Mae'r trefniadau arwain a rheoli'n dda ar y cyfan, ond gyda rhai anghysondebau, ee amrywio o ran ymroi i ymdrin ag absenoldeb salwch. Un o gymhellion y Cyngor ar gyfer datblygu model gweithredu newydd yw hyrwyddo arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol.

20 Mae'r Cyngor yn deall pwysigrwydd sefydlu diwylliant trefniadaethol cryf, gyda chapasiti a galluogrwydd priodol yn sail ar gyfer hynny. Mewn ymateb i adborth adeiladol gan y staff, mae'r Cyngor yn buddsoddi yn y maes hwn, er enghraifft, mae mewnbwn arbenigol gan ei Bartner Ail-lunio yn cynnig capasiti ac arbenigedd ychwanegol i ysgogi newidiadau i'r model gweithredu. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl i'r dull hwn weithredu fel catalydd ar gyfer newid diwylliannol.

21 Mae ymdrechion i atgyfnerthu diwylliant trefniadaethol y Cyngor wedi cael effaith gadarnhaol. Ceir trefniadau mwy cynhwysfawr i gyfathrebu â rhanddeiliaid ynghylch y rhaglen ail-lunio na'r hyn a gafwyd ar gyfer rhaglenni newid blaenorol llai uchelgeisiol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud, ac nad yw'r trefniadau'n gwbl effeithiol eto. Y mae'n cymryd camau pellach i godi ymwybyddiaeth y staff ac i liniaru eu pryderon ynghylch y newidiadau.

22 Mae Aelodau Arweiniol wedi croesawu'r newid o weithio mewn seilo tuag at ddull mwy rhyng-ddibynnol, ac at ddealltwriaeth ehangach ynghylch effaith y pwysau ar y gyllideb. Mae'r Aelodau Arweiniol hefyd yn adrodd bod Aelodau a swyddogion yn fwy parod i ystyried ystod ehangach o opsiynau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, wrth iddynt ddod i ddeall y rhaglen Ail-lunio yn well.

23 Mae gan y Cyngor ddull agored a chynhwysol o bennu blaenoriaethau a gosod targedau, sy'n seiliedig ar ymgyngoriadau â rhanddeiliaid. Mae gweledigaeth y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymiad clir at welliant parhaus. Mae hanner yr holl dargedau yng Nghynllun y Cyngor wedi'u gosod ar lefelau lle bwriedir iddynt naill ai wella, neu ymestyn perfformiad[1].

24 Caiff yr holl aelodau gyfleoedd i gyfrannu at waith i ddatblygu ac adolygu blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithdai i'r holl Aelodau, y broses graffu a chodi cwestiynau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol. Fodd bynnag, ceir risg yn gysylltiedig â chyflymder a graddfa'r rhaglen ail-lunio, ac mae'r Cyngor wedi cydnabod y risg honno. Mae'n bosibl y bydd yr angen i gyflawni llawer o waith o fewn cyfnod byr yn cyfyngu ar y cyfleoedd i adolygu a herio'r cynigion am fodelau cyflenwi gwasanaeth newydd yn drwyadl. Mae'r Cyngor yn ymdrin â'r risg hon, drwy ddefnyddio gweithdai i'r holl Aelodau i dywys yr Aelodau drwy'r modelau gwasanaeth cyn eu cyflwyno gerbron y Bwrdd Gweithredol, ynghyd â mewnbwn manwl gan y pwyllgorau craffu.

1 Mae'r Cyngor hefyd yn pennu dangosyddion canlyniad ar un o bedair lefel: **Cynnal** - perfformiad yr un peth â'r blynyddoedd cynt; **Gwella** - yn unol â thueddiadau cenedlaethol cyfredol; **Ymestyn** - sicrhau gwelliant sylweddol; neu **Isafswm** - ni ddylai perfformiad fod yn is na'r safon hon.

25 Mae gan y Cyngor ddull corfforaethol o gyflawni blaenoriaethau; mae Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau â blaenoriaeth, yn hytrach nag ar gyfraniad adrannau unigol. Ceir anogaeth eang i gydweithio rhwng adrannau. Er enghraifft, mae mentrau sy'n cefnogi thema strategol yr economi yn dibynnu ar waith cydgysylltiedig rhwng y gwasanaethau cynllunio, y gwasanaeth amgylcheddol, cymorth busnes a diwylliant a threftadaeth.

26 Mae staff y Cyngor yn arddangos ymwybyddiaeth dda o flaenoriaethau'r Cyngor ac ymrwymiad i'w cyflawni. Mae'r Cyngor wedi sefydlu diwylliant sy'n hyrwyddo perfformiad ac atebolrwydd, a threfniadau cynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth ymhlith y staff. Er enghraifft, mae'r fframwaith 'adolygu perfformiad a datblygu cymhwysedd' (PRCD) yn creu cysylltiadau rhwng amcanion personol, blaenoriaethau adrannol a blaenoriaethau strategol ehangach. Mae'r dull hwn yn helpu staff y rheng flaen i ddeall sut mae eu cyfraniad yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor.

# Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd yn gryf ar y cyfan, ond byddai cyd-drefniant gwell rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau craffu yn fuddiol

## Mae rolau a chyfrifoldebau clir, wedi'u cefnogi gan werthoedd ac ymddygiad priodol yn hyrwyddo llywodraethu da ac atebolrwydd cryf

27 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn rhoi diffiniad clir o rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau, sy'n seiliedig ar werthoedd sy'n trafod ymddiriedaeth, parch, arloesi, hyblygrwydd, uniondeb ac ymrwymiad. Mae'r eglurder hwn o gymorth i hyrwyddo llywodraethu da ac atebolrwydd cryf. Mae Gweithgor y Cyfansoddiad, a chanddo gynrychiolaeth gwleidyddol gytbwys, yn cynorthwyo'r Swyddog Monitro i gyflawni ei gyfrifoldeb i fonitro ac adolygu'r Cyfansoddiad yn rheolaidd. Cyhoeddwyd y Cyfansoddiad diweddaraf ym mis Medi 2015.

28 Mae ymddygiad yr Aelodau mewn cyfarfodydd bob amser yn broffesiynol ac yn adeiladol. Yn gyson, mae'r Aelodau a'r swyddogion yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiad priodol, ac mae'r berthynas rhwng yr Aelodau a'r swyddogion yn dda. Ceir diwylliant o barch ac ymddiriedaeth y naill at y llall ymhlith yr Aelodau ar draws grwpiau gwleidyddol, a chydag uwch swyddogion, sy'n hyrwyddo perthnasoedd gwaith cynhyrchiol a phroffesiynol. Mae Aelodau Arweiniol yn cyfarfod â'r Uwch Dîm Arwain yn rheolaidd, yn cydnabod y pwysau ar y staff, ac yn parchu eu proffesiynoldeb a'u parodrwydd i ymateb.

29 Mae'r Aelodau Arweiniol yn gyson yn dangos perchnogaeth dros eu portffolios a gwybodaeth amdanynt, a chyd-atebolrwydd am benderfyniadau a wneir ar y Bwrdd Gweithredol. Mae'r Aelodau Arweiniol yn cyflwyno adroddiadau ac yn ymateb i'r rhan fwyaf o gwestiynau; mae'r swyddogion sy'n bresennol yn rhoi ymatebion o natur dechnegol, pan fo angen.

30 Ychydig o bwerau dirprwyedig sydd gan Aelodau Arweiniol, trefniant y gellid ei ganfod fel un sy'n tanseilio eu hatebolrwydd. Er hynny, mae swyddogion a'r Weithrediaeth yn cydnabod y gallai dirprwyo mwy o bwerau leihau nifer y penderfyniadau 'arferol' sydd yn gorfod cael eu cyflwyno gerbron pwyllgor. Byddai hyn yn galluogi'r Aelodau i ddefnyddio'u capasiti i ganolbwyntio ar faterion uchel eu blaenoriaeth. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad o lefelau dirprwyo yn ystod 2016.

## Mae’r trefniadau i gefnogi’r Aelodau wedi’u hatgyfnerthu, ond gall ansawdd lleiafrif o adroddiadau a chofnodion leihau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Aelodau

31 Ceir trefniadau digonol er mwyn cynorthwyo’r Aelodau i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Gall yr Aelodau fanteisio ar becyn hyfforddi a datblygu cynhwysfawr. Mae Hyrwyddwr Datblygu’r Aelodau’n cyfarfod â’r Aelodau ac Arweinwyr y Grwpiau i drafod a hyrwyddo Strategaeth Datblygu’r Aelodau a’r Rhaglen Flynyddol ar gyfer Datblygu’r Aelodau. Mae’r Cyngor yn disgwyl y bydd y dull hwn yn ei gwneud hi’n haws rhagweld anghenion newydd neu anghenion sy’n dod i’r amlwg o ran hyfforddi a datblygu.

32 Mae’r Cyngor yn annog pob Aelod i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn amlinellu ei rôl, ei gyfrifoldebau, ei brif weithgareddau a’r hyfforddiant a gwblhaodd yn ystod y flwyddyn. Mae cyfran yr Aelodau sy’n cyhoeddi Adroddiadau wedi cynyddu’n raddol ers 2012-13. Fodd bynnag, dim ond ychydig dros hanner (28) o 52 o Aelodau’r Cyngor a luniodd Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2014-15. Mae hyn yn golygu bod rhai wedi colli’r cyfle i ddangos i’w hetholwyr sut yr oeddent wedi cymryd rhan a chyfrannu i’r fwrdeistref sirol.

33 Nid yw lleiafrif o’r papurau wedi cael eu drafftio’n glir, gan olygu eu bod hi’n anodd i’r Aelodau, ac i randdeiliaid eraill, ddeall y materion yn llawn, a chyfrannu’n effeithiol i gyfarfodydd. Yn arbennig, ni fydd papurau pwyllgor sy’n cynnwys data weithiau’n cynnwys dadansoddiadau data digon eglur neu o ansawdd digon da i hyrwyddo her adeiladol neu i gefnogi penderfyniadau effeithiol. Ar ei orau, mae hyn yn arwain at gwestiynau ychwanegol yn gofyn am eglurhad a chyfarfodydd hirach, ar ei waethaf, mae’n rhaid ail-lunio ac ailgyflwyno papurau, sy’n achosi oedi a rhwystredigaeth.

34 Ceir lle hefyd i wella eglurder cofnodion rhai cyfarfodydd pwyllgor. Er enghraifft, mae’n anodd asesu faint o herio a thrafodaeth a gafwyd cyn rhai penderfyniadau pan nodir bod yr Aelod Arweiniol ‘wedi ymateb i gwestiynau’n briodol’. Ni fyddai unrhyw un nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn gwybod rhyw lawer am yr heriau a godwyd na’r ymatebion a roddwyd, o edrych ar y cofnodion, er bod hyn wedi’i liniaru i ryw raddau wrth we-ddarlledu cyfarfodydd.

## Mae'r broses gwneud penderfyniadau ar draws y Cyngor yn gadarn ac effeithiol ar y cyfan

35 Yn hwyr yn 2014, diwygiodd y Cyngor y Cyfansoddiad, gan gael gwared â'r gofyniad i weithredu drwy Weithrediaeth gwleidyddol gytbwys. Newidiodd hyn y ddeinameg wleidyddol, gan greu Gweithrediaeth oedd yn cynnwys clymblaid o dri grŵp gwleidyddol, gyda thri grŵp yn eu gwrthwynebu. Mae'r newid cyfansoddiadol wedi creu strwythur gwrthwynebu mwy ffurfiol, nad oedd yn bresennol yn y gyfundrefn flaenorol. Mae hefyd wedi cynyddu'r tebygolrwydd o her.

36 Mae cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn drefnus, ond cyfyngir yn arw ar lefel y drafodaeth yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd ar adegau. Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Weithrediaeth, ond sy'n bresennol yn y cyfarfod, sy'n gofyn am eglurhad neu'n herio'r adroddiadau gan amlaf. I gefnogi agwedd agored a thryloyw, caiff aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau mewn cyfarfodydd. Pan fydd dinasyddion yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd, cânt eu trin â pharch a chwrteisi.

37 Mae cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd o'r Bwrdd Gweithredol â phrif swyddogion yn cynnig cyfle gwerthfawr i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol drafod ac ymgyfarwyddo â chynnwys adroddiadau cyn eu cyhoeddi'n derfynol. Pan fydd yr agenda'n orlawn, bydd hyn yn helpu i sicrhau nad yw'r cyfarfod yn rhy hir. Fodd bynnag, gall trafod ymlaen llaw danseilio ansawdd y ddadl yn y fforwm cyhoeddus.

## Mae'r trefniadau ar gyfer craffu'n cael eu hatgyfnerthu, ond byddai cyd-drefniant gwell rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau craffu yn fuddiol

38 Mae'r rhan fwyaf o aelodau'n gwerthfawrogi bod potensial i'r swyddogaeth graffu gefnogi proses benderfynu effeithiol. Fodd bynnag, nid ydy lleiafrif o Aelodau yn llawn werthfawrogi nac yn llawn ddeall beth ydy cyfraniad craffu da. Mae'r Cyngor yn ailwampio'r swyddogaeth graffu i adlewyrchu adborth o adolygiad a gomisiynodd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn 2014-15. Mae'r Aelodau wedi ymateb i'r adborth mewn modd cadarnhaol. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar weledigaeth a diben ar gyfer craffu, sef:

- caiff Craffu ei werthfawrogi'n gyfartal gan bawb am ei fod yn elfen annatod o'r broses o wneud penderfyniadau; a
- bydd craffu yn Wrecsam yn cyfrannu at wneud penderfyniadau tryloyw, cynhwysol ac atebol, a fydd yn arwain at well canlyniadau i bobl leol.

39 Cytunodd y Cyngor hefyd ar bum maes allweddol o ran datblygu craffu, sef:

- adolygu rôl Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i'w galluogi i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb ac i arwain y broses graffu mewn modd mwy effeithiol;
- trefniadau cyfathrebu mwy effeithiol/strwythuredig rhwng craffu, Aelodau Arweiniol a Swyddogion;
- bod pwyllgorau craffu a'r Bwrdd Gweithredol yn cynllunio rhaglenni gwaith mewn modd mwy effeithiol, er mwyn i'r swyddogaeth graffu allu canolbwyntio ar y 'materion mawr';
- nodi a datblygu dulliau mwy arloesol o godi ymwybyddiaeth ynghylch craffu ac i hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd; a
- chefnogi datblygiad parhaus sgiliau a gallu aelodau craffu.

40 Nid yw agendâu'r Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau craffu wedi'u cydgysylltu'n effeithiol bob tro. Gall hyn achosi gwrthdaro diangen, yn enwedig os bydd pwyllgorau craffu'n colli cyfle i herio cynigion neu i ddwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif. Bydd y gallu i flaenoriaethu ac i wneud penderfyniadau deallus ynghylch yr hyn y dylid craffu arno, a phryd y dylid gwneud hynny, yn datblygu'n gynyddol bwysig wrth i'r Rhaglen Ail-lunio gyflymu.

41 Mae'r Cyngor wedi cydnabod y gall cynlluniau gwaith da fod o gymorth i bwyllgorau craffu flaenoriaethu a chanolbwyntio eu capasiti'n fwy effeithiol. Yn ddiweddar, adolygodd a diweddarodd y pwyllgorau craffu eu blaengynlluniau gwaith. Yn sail ar gyfer hynny, defnyddiwyd dogfennau allweddol fel y rhaglen waith archwilio mewnol, y gofrestr risg gorfforaethol a blaengynllun gwaith y Bwrdd Gweithredol.

42 Mae'r Pwyllgor Archwilio'n parhau i gynyddu ei effeithiolrwydd ac yn creu cysylltiadau priodol â phwyllgorau craffu. Mae'r Aelod Lleyg a benodwyd yn ddiweddar yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio bellach yn mynychu cyfarfod rheolaidd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu. Dengys hyn ymrwymiad i atgyfnerthu cysylltiadau ac i ddatblygu dealltwriaeth ehangach ar draws yr holl brosesau llywodraethu. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd rhai rheolwyr yn gorfod ysgwyddo cyfrifoldebau newydd ac anghyfarwydd yn sgil y gostyngiad a ragwelir mewn capasiti rheoli. Gallai hyn, ynghyd â'r prinder capasiti o ran archwilio mewnol, gynyddu'r risg o ddiffyg cydymffurfio â rheolaethau a pholisïau allweddol. Bydd angen i'r Cyngor fod yn effro i'r cynnydd hwn mewn risg.

## Mae ymgysylltiad y Cyngor â'i randdeiliaid yn hyrwyddo atebolrwydd da

43 Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'i randdeiliaid mewn ystod o ddulliau agored a thryloyw sy'n cefnogi atebolrwydd. Er enghraifft:

- Mae gwe-ddarllediadau byw ac wedi'u recordio o gyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Cynllunio, wedi'u cefnogi gan adroddiadau cynnydd yn y cyfryngau cymdeithasol, yn galluogi rhanddeiliaid i ddilyn y drafodaeth ar-lein. Mae'r Cyngor yn awyddus i ymestyn y trefniadau hyn i gynnwys yr holl gyfarfodydd cyhoeddus, ond gallai pwysau ariannol gyfyngu ar ei allu i ehangu hygyrchedd.
- Mae dull y Cyngor o ymgysylltu ac ymgynghori'n rhoi cyfle i'r cyhoedd lunio ei wasanaethau; cafwyd ymateb da o ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau ar gyfer cyllideb 2016-17. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo wella ei ddull o ofyn am safbwyntiau rhai grwpiau a chymunedau sy'n fwy anodd eu cyrraedd, ac mae'n datblygu dull wedi'i dargedu er mwyn ymgysylltu â hwy.
- Mae'r swyddogaeth graffu wedi ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol, gan wrando ar safbwyntiau Senedd yr Ifanc[2] a chwrdd â chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd ac o Heddlu Gogledd Cymru.
- Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu mewn modd effeithiol â Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru a'i bartneriaid ac wedi helpu i ddylanwadu ar weledigaeth a blaenoriaethau'r Bwrdd.

| Cynnig ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C1 | Llywodraethu:<br>• Sicrhau bod adroddiadau i'r Aelodau, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys dadansoddi data, wedi'u geirio'n glir, er mwyn hyrwyddo penderfyniadau deallus.<br>• Sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd cyhoeddus yn cofnodi ac yn rhoi esboniad clir o'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfarfod.<br>• Cydgysylltu blaenraglenni gwaith yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau cydweithio di-dor rhwng cyfarfodydd craffu a'r Bwrdd Gweithredol. |

2 Senedd yr Ifanc: Senedd Ieuenctid Wrecsam, sy'n gweithio ar faterion y fwrdeistref sirol sy'n effeithio ar bobl ifanc Wrecsam.

# Nid yw'r trefniadau i reoli adnoddau'r Cyngor yn gadarn bob amser, gyda chryfderau wedi'u tanseilio mewn rhai meysydd oherwydd dulliau wedi dyddio a phroblemau capasiti

## Mae hanes o gynllunio ariannol doeth, a rheolaeth gref ar gyllidebau'n creu seiliau cryf ar gyfer rhaglen newid bellgyrhaeddol y Cyngor

44 Ceir safbwynt ariannol cryf o fewn yr uwch dîm arwain. Mae hyn o gymorth er mwyn sicrhau seiliau cadarn ar gyfer gwaith cynllunio a phenderfyniadau. Ceir cynlluniau ariannol clir a chryno ar gyfer y tymor canolig. Caiff y cynllun tair blynedd ei ddiweddaru'n flynyddol, ei gefnogi gan waith dadansoddi manwl a rhagdybiaethau rhesymol ynghylch costau, incwm a phwysau chwyddiant.

45 Fel holl awdurdodau lleol Cymru, mae'r Cyngor yn dibynnu'n drwm ar y Grant Cynnal Refeniw (GCR)[3] i dalu am y gwasanaethau y mae'n eu cyflenwi. Ar gyfer 2015-16, mae'r GCR i gyfrif am bron i 60 y cant o'r gwariant refeniw o £225 miliwn a gynlluniwyd gan y Cyngor. Er bod lefel y GCR a ddyfarnwyd i gynghorau yng Nghymru wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, bu'r gostyngiad yn llai yn Wrecsam nag yn y rhan fwyaf o gynghorau eraill, a hynny oherwydd tueddiadau demograffig. Serch hynny, mae'r ansicrwydd ynghylch lefelau'r GCR yn y dyfodol yn golygu y ceir risg sylweddol yn gysylltiedig â chynlluniau ariannol y Cyngor. Gwnaeth y Cyngor ragdybiaethau gochelgar ynghylch lefelau GCR yn y dyfodol, gan amcangyfrif yn wreiddiol bod angen iddo gyflwyno gostyngiad o £45.5 miliwn i'w wariant dros y tair blynedd fyddai'n dechrau yn 2015-16. Ar ôl hynny, bu i'r Cyngor ddiweddaru ei ragdybiaethau (drwy gyfleu trefniant dros dro Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015) i gyflwyno gostyngiad o £27 miliwn i'w wariant dros y tair blynedd fyddai'n dechrau yn 2016-17.

46 Caiff y gyllideb ei phennu mewn modd amserol. Mae'n adlewyrchu'r cynllun tymor canolig ac yn gyson â Chynllun y Cyngor. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer cynyddol o ddinasyddion Wrecsam wedi ymateb i ymgynghoriad Wrecsam ar y gyllideb, gan roi adborth gwerthfawr ar ganfyddiad y cyhoedd ynghylch lle y dylid cyflwyno toriadau i'r gyllideb, a lle na ddylid gwneud hynny. Ystyriodd y Cyngor safbwyntiau'r dinasyddion wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2015-16. Fodd bynnag, roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer 2016-17 yn cynnwys nifer o gynigion nad oedd y Cyngor ond newydd ddechrau eu datblygu; wedi eu dylanwadu gan yr amserlenni sy'n gysylltiedig â'r trefniant nawdd ar gyfer 2016-17, oedd yn arbennig o heriol ar gyfer ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Lleol. Rhoddodd proses ymgynghori'r Cyngor ganllaw cyfyngedig am effaith debygol y toriadau cyllideb ar ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau.

3 Mae sawl ffactor yn effeithio ar lefel y Grant Cynnal Refeniw a ddyrennir i gynghorau, fel poblogaeth, nifer y plant a'r bobl oedrannus, hyd y ffyrdd, pa mor wledig yw'r ardal a theneurwydd y boblogaeth.

47 Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni ei gynlluniau arbed. Yn 2015, adroddwyd bod y Cyngor wedi nodi ei ddiffyg blynyddol i'r gyllideb yn gywir rhwng 2011-12 a 2013-14, ac wedi datblygu amrywiaeth o arbedion i lenwi'r bwlch hwnnw. Roedd cynlluniau arbed y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli'n dda. Datganodd pob adran fymryn o danwariant yn erbyn eu cyllidebau yn 2014-15, gan adlewyrchu effeithiolrwydd gwaith monitro a rheoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cafwyd amrywio sylweddol rhwng yr alldro a ragwelwyd i'r ysgolion, ac a adroddwyd i'r Aelodau'n fuan yn 2015, a'r alldro terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er bod rhai amgylchiadau lliniarol sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, nid yw'r achosion hyn o amrywio o gymorth i'r Aelodau (y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn llywodraethwyr ysgol) wrth fonitro sefyllfa ariannol ysgolion.

48 Drwy gyrraedd targedau arbed cyffredinol, nid yw'r Cyngor wedi gorfod defnyddio arian o gronfeydd i fantoli ei gyllideb. Ceir eglurder a thryloywder ynghylch y defnydd o gronfeydd, ac ni chaiff cronfeydd wedi'u clustnodi ond eu defnyddio ar gyfer risgiau ac ymrwymiadau a nodwyd yn glir. Mae Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn cynyddu'n araf hyd at bump y cant o wariant net, sef y lefel ochelgar gytunedig, ac eithrio gwariant ysgolion.

49 Mae cynyddu lefelau incwm o ffioedd a thaliadau'n elfen bwysig er mwyn lleihau costau cyflenwi gwasanaethau. Yn y gorffennol, bu cynigion i godi taliadau - a thaliadau parcio yn enwedig - yn gynhennus ac yn destun cryn ddadlau o fewn y Cyngor. Yn ddiweddar, mabwysiadodd y Cyngor bolisi ar gyfer incwm a chodi taliadau er mwyn llywio'r dadleuon hyn. Seiliwyd y polisi ar ddadansoddiad cynhwysfawr o gost gwasanaethau dewisol, a'r graddau y telir y costau hynny drwy'r incwm y maent yn eu cynhyrchu. Mae'r wybodaeth hon yn creu sail gadarn ar gyfer gweithredu'r polisi newydd. Mae staff AD a chyllid y Cyngor yn darparu cymorth i wasanaethau eraill heb godi tâl am eu gwasanaethau sy'n adlewyrchu lefel neu gymhlethdod y gwasanaeth a ddarparwyd. Gan nad ydynt yn ymwybodol o gost wirioneddol y gefnogaeth hon, ni chaiff rheolwyr eu hannog i gwestiynu faint o gefnogaeth arbenigol y maent yn ei defnyddio, nac i ddibynnu llai ar y gefnogaeth honno o ran rheoli pobl a chyllidebau.

### Mae'r Cyngor yn parhau i atgyfnerthu ei drefniadau caffael er mwyn rhoi cefnogaeth well i'r rhaglen Ail-lunio sydd ar ddod

50 Mae'r Cyngor wedi cydnabod nad yw dull graddol o sicrhau arbedion, yr oedd wedi dibynnu arno yn y blynyddoedd cynt, yn gynaliadwy. Ceir pedair egwyddor allweddol a gefnogir yn eang gan yr Aelodau sy'n tanategu rhaglen i drawsnewid dull y Cyngor o gyflenwi gwasanaethau. Drwy gynnwys partner o'r sector preifat yn y rhaglen ail-lunio hon, bwriedir cyflymu'r broses newid a chyflwyno profiad o fodelau cyflenwi gwasanaeth amgen. Yn dilyn ymarfer cwmpasu, mae'r Aelodau wedi cytuno ar gam cyntaf y rhaglen, sy'n cynnwys ad-drefnu'r pum haen rheoli uchaf, fydd yn arbed oddeutu £2.2 miliwn yn 2016-17. Mae gwaith i ddatblygu'r ail gam yn mynd rhagddo, gan gynnwys ail-ddylunio dros 30 o feysydd gwasanaeth; mae'r Cyngor yn disgwyl i'r cam hwn gynhyrchu bron £9 miliwn o arbedion, wedi iddo gael ei weithredu'n llawn.

51 Wrth i'r rhaglen ail-lunio ennill momentwm, mae'r Cyngor yn parhau i symleiddio ac atgyfnerthu ei drefniadau caffael. Mae'r egwyddorion sy'n llywio'r rhaglen ail-lunio'n cydnabod bod y Cyngor yn debygol o ddibynnu'n gynyddol ar gyflenwyr allanol i ddarparu rhai gwasanaethau ar ei ran. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen iddo gynyddu ei gapasiti caffael, a'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ganddo, i fonitro a rheoli'r contractau fydd yn cefnogi'r newidiadau hyn.

## Mae trefniadau cynllunio'r gweithlu wedi'u hintegreiddio'n dda, ond gall systemau hen ffasiwn ar gyfer rheoli pobl, pwysau o ran capasiti a galluogrwydd, a materion diwylliannol arafu cynnydd

### Mae'r Rhaglen Ail-lunio sydd ar ddod, a gorddibyniaeth ymhlith lleiafrif o reolwyr, yn rhoi pwysau ar y capasiti i Reoli Pobl

52 Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ddull o gynllunio'r gweithlu mewn ymateb i gynnig gwella cynharach gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r trefniadau newydd bellach wedi'u sefydlu; mae hyn o gymorth i reolwyr ganfod bylchau mewn sgiliau mewn cynlluniau gwasanaeth blynyddol.

53 Mae'r Cyngor yn cadw cyfres o gynlluniau a strategaethau cysylltiedig â'r gweithlu sy'n ystyriol o'i flaenoriaethau strategol, ac yn cefnogi'r blaenoriaethau hynny. Anogir rheolwyr y Cyngor i ymdrin â materion arferol yn gysylltiedig â'r gweithlu ac adnoddau dynol (AD), gyda chefnogaeth effeithiol gan Bartneriaid Busnes AD. Fodd bynnag, mae lleiafrif o reolwyr yn dibynnu'n ormodol ar y gefnogaeth honno ac yn amharod i ymdrin yn uniongyrchol â rhai materion arferol, ond heriol, yn gysylltiedig â staff.

54 Mae tîm AD y Cyngor yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu modelau cyflenwi gwasanaeth newydd sy'n dod i'r amlwg o'r rhaglen ail-lunio, a bydd yn parhau i ymwneud â hyn drwy gydol y cyfnod ail-lunio. Mae'r gwaith hwn yn rhoi pwysau mawr ar gapasiti'r adran, gan amharu ar ei gallu i ddarparu cefnogaeth AD arferol.

55 Bydd goblygiadau i rai aelodau o staff y Cyngor yn sgil y rhaglen ail-lunio: bydd angen ail-hyfforddi rhai ohonynt ar gyfer rôl newydd; efallai y bydd rhai'n cael eu trosglwyddo i sefydliad newydd; a bydd rhai'n gadael y Cyngor. Bydd y newidiadau hyn, a newidiadau eraill sy'n effeithio ar y gweithlu, yn gosod pwysau ychwanegol sylweddol ar y tîm AD wrth i'r rhaglen ail-lunio gyflymu, ac yn ddiweddarach wrth weithredu'r newidiadau. Mae pwysau ar gapasiti o fewn y tîm AD yn risg i gynnydd.

## Mae systemau aneffeithlon yn tanseilio effeithiolrwydd trefniadau rheoli'r gweithlu

56 Mae'r Cyngor wedi dibynnu ar ei system TG AD/Cyflogres gyfredol ers 2002. Fodd bynnag, nid yw'r system wedi'i datblygu'n ddigonol, ac ni fu ymdrechion i'w diweddaru'n llwyddiannus bob tro. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr adran AD, ac aelodau eraill o staff. Mae rhai prosesau allweddol yn gysylltiedig ag AD yn parhau i gael eu cyflawni ar bapur. Nid yw'r system yn cynnal modiwl hunanwasanaeth llawn i'r staff, ac mae ansawdd data annibynadwy'n llesteirio ymdrechion i fonitro ac adrodd gwybodaeth sylfaenol, fel absenoldeb salwch ymhlith y staff. Er bod y Cyngor yn disgwyl mynd i'r afael â rhai o'r gwendidau, fel parhau gyda'r modiwl hunanwasanaeth yn fuan yn 2016, ceir risg y bydd pwysau ar gapasiti mewnol yn oedi cynnydd.

57 Bu'r Cyngor yn araf wrth ymdrin ag achosion o oedi wrth weinyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal[4] (GDA) ar ran ysgolion sy'n recriwtio staff newydd - codwyd y pryderon hyn yn wreiddiol gan yr Archwilydd Mewnol yn 2013. Erbyn mis Medi 2015, cyhoeddodd yr archwilydd mewnol ei chweched adroddiad dilynol ar gydymffurfio â gofynion y GDA, ar ôl gweld na chafwyd rhyw lawer o gynnydd ym mhob adroddiad dilynol blaenorol. Mae'r Cyngor bellach yn archwilio'r posibilrwydd o gaffael proses wirio ar gyfer y GDA ar-lein. Disgwylia'r Cyngor y bydd hyn yn cyflymu ac yn effeithlonni'r gwaith o weinyddu gwiriadau GDA i raddau sylweddol, ac yn cefnogi ei gyfrifoldebau diogelu .

4 Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau mwy diogel ynghylch recriwtio, ac yn atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant.

## Mae data annibynadwy ac arferion rheoli anghyson yn tanseilio ymdrechion i ymdrin â lefelau uchel o absenoldeb salwch

58 Mae lefel absenoldeb salwch cyfartalog y Cyngor wedi parhau i gynyddu[5] - dyma'r Cyngor gwaelaf ei berfformiad yng Nghymru yn 2014-15. Ceir costau sylweddol yn gysylltiedig ag absenoldeb ymhlith y staff, a goblygiadau'n gysylltiedig â hynny i'r Cyngor o ran capasiti, yn enwedig gyda phwysau ariannol cynyddol. Pan na fydd aelodau o staff ar gael ar gyfer gwaith, efallai y bydd y ddarpariaeth gwasanaeth yn llai ymatebol neu o ansawdd is. Ar gyfer rhai gwasanaethau hanfodol, efallai y bydd angen talu goramser neu ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i lenwi'r bwlch pan fydd staff yn absennol, gan gynyddu costau cyflenwi cyffredinol.

59 Mae'r lefelau absenoldeb salwch hirdymor o fewn y Cyngor yn arbennig o ddifrifol, ac i gyfrif am dri chwarter yr holl ddiwrnodiau a gollwyd yn ystod chwarter cyntaf 2015-16[6]. Nid yw rhai rheolwyr wedi rheoli presenoldeb neu ymdrin ag absenoldeb salwch mewn modd effeithiol, ac maent wedi dibynnu'n ormodol ar bartneriaid busnes AD i ymdrin â phroblemau staffio anodd. Ers 2013-14, mae'r Cyngor wedi cymryd sawl cam i wella'r dull o reoli presenoldeb staff. Nid yw'r camau hyn wedi cael rhyw lawer o effaith. Er bod y lefelau salwch byrdymor a thymor canolig wedi gwella yn gynnar yn 2015-16, cafwyd cynnydd cyflymach yn lefelau'r salwch hirdymor. Ar y cyfan, parhaodd lefelau absenoldeb salwch i gynyddu yn ystod 2015-16[7].

60 Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai ei ddata absenoldeb salwch fod yn annibynadwy. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anos i Aelodau Arweiniol ac uwch swyddogion fynd ati'n rhagweithiol i adolygu a rheoli lefelau salwch staff o fewn eu portffolio. Nid yw rheolwyr bob amser yn adrodd absenoldeb salwch yn brydlon neu'n gyson; mae'r broses adrodd yn dibynnu ar hysbysiadau papur neu e-bost, ac mae'r diffyg integreiddio rhwng prosesau cyflogres ac AD yn achosi oedi a'r posibilrwydd am wallau pellach. Mae'r Cyngor bellach yn cymryd camau i gyflwyno trefniadau mwy effeithlon ac effeithiol ar gyfer rheoli, cofnodi ac adrodd absenoldeb salwch.

5 Mae nifer cyfartalog o ddiwrnodiau o absenoldeb salwch fesul cyflogai (CALI) yn y Cyngor wedi cynyddu o 9.9 diwrnod yn 2012-13 i 11.6 diwrnod yn 2013-14, a i 11.9 diwrnod yn 2014-15. Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

6 Salwch hirdymor (21 diwnod +) oedd i gyfrif am 13,874 o'r 18,876 o ddiwrnodiau o salwch (74 y cant) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Gorffennaf 2015. Ffynhonnell: Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu Hydref 2015.

7 Cyfanswm y diwrnodiau salwch a adroddwyd: Ebrill - Gorffennaf 2014: 17,895 o ddiwrnodiau, Ebrill - Gorffennaf 2015: 18,876 o ddiwrnodiau. Ffynhonnell: Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu Hydref 2015.

## Mae ymdrechion i wella'r trefniadau i ymgysylltu â'r staff ac i hyrwyddo lles y staff yn cael effaith gadarnhaol

61 Mae'r Cyngor wedi ymateb mewn modd cadarnhaol i bryderon a godwyd yn arolwg staff 2015 ynghylch lefel yr ymgysylltu ynghylch newidiadau diweddar a newidiadau cynlluniedig o ran trefniadaeth. I ategu'r trefniadau presennol ar gyfer cyfathrebu'n fewnol, mae'r Cyngor bellach yn cyhoeddi bwletin pythefnosol i hysbysu'r staff am gynnydd y rhaglen ail-lunio. Mae aelodau o staff hefyd wedi cael cyfle i wrando ar y Prif Weithredwr a'r Arweinydd a gofyn cwestiynau iddynt ynghylch dyfodol y Cyngor. Er bod croeso brwd i'r mentrau newydd hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen parhau i atgyfnerthu ei drefniadau i ymgysylltu â'r staff.

62 Bodlonodd y Cyngor Safon Iechyd Corfforaethol Aur[8] yn 2015, ar ôl adolygu ei drefniadau i hyrwyddo iechyd a lles y staff. Llongyfarchodd yr aseswyr y Cyngor am 'ofalu am y bobl y mae'n eu gwasanaethu a'r bobl sy'n darparu'r gwasanaethau'.

| Cynnig ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C2 | Y Defnydd o Adnoddau - Pobl:<br>• Sicrhau capasiti digonol i ddarparu cefnogaeth AD effeithiol ar gyfer y Rhaglen Ail-lunio ac ar gyfer materion arferol sy'n gysylltiedig â'r gweithlu.<br>• Sicrhau bod gan yr holl reolwyr llinell y capasiti a'r gallu i ymdrin â materion arferol sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, yn enwedig materion sy'n gysylltiedig ag absenoldeb salwch y staff.<br>• Sicrhau bod systemau a phrosesau ar gyfer hysbysu, monitro, recordio ac adrodd absenoldeb salwch yn effeithlon, effeithiol ac yn gallu darparu data amserol a chywir. |

8 Y Safon Iechyd Corfforaethol, a gynhelir gan Lywodraeth Cymru, ac a gyflwynir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yw'r nod ansawdd ar gyfer hyrwyddo iechyd yn y gweithle yng Nghymru.

## Mae'r rheolaeth strategol ar asedau'n gadarn ar y cyfan, ond mae wedi ei danseilio gan drefniadau rheoli perfformiad a chronfeydd ddata sydd ddim yn gyfan gwbl effeithiol

### Mae'r trefniadau arwain a rheoli'n hyrwyddo rheolaeth effeithiol a strategol ar asedau

63 Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ac ymdeimlad o bwrpas ar gyfer y tir a'r adeiladau sydd ymhlith ei asedau[9]. Cymeradwyodd Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol (STAC) newydd 2015-20 yng nghanol 2015 sy'n cynnwys cysylltiadau clir â chynlluniau a strategaethau corfforaethol allweddol, gan gynnwys Cynllun y Cyngor. Ni cheir cyfeiriadau amlwg yn y STAC at Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, ond o safbwynt ymarferol, ceir cysylltiadau cadarn rhwng rheolaeth strategol ar asedau a chyllid. Er bod y STAC yn rhoi safbwynt corfforaethol cyfredol, nid yw'r rhan fwyaf o gynlluniau rheoli asedau lefel gwasanaeth wedi cael eu diwygio eto i adlewyrchu'r diweddariad strategol.

64 Mae'r STAC yn cynnwys polisïau a chanllawiau cynhwysfawr ar gaffael a gwaredu, gan gynnwys Polisi Trosglwyddo Asedau (PTA). Yn ôl y polisi, 'bydd y Cyngor yn cadw eiddo'n unig pan fo'n cynorthwyo cyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor a Chynllun y Cyngor'. Mae'r PTA hefyd yn amlinellu dull y Cyngor o drosglwyddo asedau cymunedol (TAC), y broses ar gyfer asesu a yw ased yn addas ar gyfer TAC, a hefyd yn pwysleisio'r angen i gynigion TAC fod yn 'gynaliadwy yn y tymor hwy'. Mae dull y Cyngor o ymdrin â TAC yn gefnogol, am ei fod yn helpu sefydliadau i ddangos bod ganddynt achos busnes hyfyw a chynaliadwy er mwyn rheoli'r asedau, ar ôl eu trosglwyddo.

65 Er iddo fethu â gwneud hynny, mae'r Cyngor wedi ceisio datblygu dull o gynllunio asedau ar y cyd â phartneriaid eraill o'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cysylltu'n anffurfiol â phartneriaid o'r sector cyhoeddus, ac fe gynhelir trafodaethau ad hoc, yn enwedig ynghylch y posibilrwydd o gaffael neu waredu safleoedd strategol allweddol.

66 Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer asedau eiddo'r Cyngor wedi'u diffinio'n glir. Mae Gweithgor Aelodau/Swyddogion, a gadeirir gan yr Arweinydd, yn goruchwylio cynllun cyflawni'r STAC ac yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch diwygiadau neu addasiadau i'r cynllun. O safbwynt gweithredol, y Pennaeth Asedau a Datblygu Economaidd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli asedau strategol corfforaethol, ynghyd â phwerau dirprwyedig clir. Mae strwythur rheoli'r Cyngor hefyd yn hyrwyddo rheolaeth effeithiol ar asedau. Mae'r Grŵp Gweithredu Rheoli Asedau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob adran, yn hyrwyddo cydymffurfio â gweithdrefnau eiddo'r Cyngor.

9 Canolbwyntiai'r Asesiad Corfforaethol ar asedau gweithredol y Cyngor o ran tir ac eiddo - ystâd a oedd yn cynnwys oddeutu 300 o safleoedd, gwerth ychydig llai na £300 miliwn. Nid oedd yn cynnwys priffyrdd, eiddo preswyl nac asedau cysylltiedig, y ceir trefniadau rheoli ar wahân ar eu cyfer.

## Nid yw'r rheolaeth ar berfformiad asedau wedi'i datblygu'n ddigonol, ac mae trefniadau ar gyfer cronfeydd data sydd ddim yn gyfan gwbl effeithiol yn cyfyngu ar y rheolaeth honno

67 Er bod y Cyngor yn cydnabod y rhyng-ddibyniaeth rhwng cynllunio'r gweithlu a rheoli asedau, nid yw'r cynlluniau cysylltiedig wedi'u halinio mewn modd strategol. Fodd bynnag, mae menter Gweithio Ystwyth y Cyngor yn enghraifft dda o gydweithio rhwng staff gwasanaethau, rheoli asedau ac AD. Mae'r prosiect yn cynyddu'r gyfran o staff y Cyngor sy'n gallu gweithio'n hyblyg o amrywiaeth o leoliadau; mae hyn yn golygu bod angen llai o ofod parhaol o ran desgiau a swyddfeydd. Ar ôl ei gwblhau, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd angen traean yn llai o ofod swyddfa ac y bydd y gost o weithredu'r swyddfeydd sy'n weddill wedi'i haneru. Bydd modd i'r Cyngor wedyn roi'r swyddfeydd sydd dros ben ar osod, eu gwerthu neu eu hailddatblygu, gan gynhyrchu incwm neu dderbyniadau cyfalaf, neu ryddhau safleoedd i'w datblygu'n strategol.

68 Nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer asedau tir ac eiddo wedi'u datblygu'n ddigonol, ac mae'r systemau sydd ar waith a phwysau o ran capasiti yn cyfyngu arnynt. Mae'r Cyngor yn casglu data ac yn cymryd rhan mewn prosiect meincnodi cenedlaethol, ond nid yw'n monitro nac yn adrodd ar berfformiad ei asedau anfasnachol yn rheolaidd. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfle i herio a chymharu perfformiad asedau unigol, neu i wneud penderfyniadau deallus yn eu cylch.

69 Mae'r Cyngor yn defnyddio cronfa ddata wedi'i chynllunio'n arbennig i gadw ei gofnodion ar asedau. Nid yw'r gronfa ddata'n gydnaws â meddalwedd arall a ddefnyddir gan y Cyngor, ac nid yw'n cefnogi rheolaeth gadarn ar berfformiad. Caffaelir cymorth technegol ar gyfer y gronfa ddata yn allanol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gwendidau rhyng-gysylltiedig hyn yn achosi risg. Un o flaenoriaethau cynllun cyflawni'r STAC ar gyfer 2015-16 yw caffael cronfa ddata amgen er mwyn bodloni anghenion presennol ac anghenion y dyfodol, ac i ryngwynebu â systemau eraill sydd ar waith. Mae pwysau ar gapasiti ac adolygiad o drefniadau rheoli asedau, drwy'r rhaglen ail-lunio, wedi oedi cynnydd ers pennu'r flaenoriaeth honno.

70 Mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllideb cynnal a chadw mewn modd rhagweithiol drwy osod gwaith yn ôl blaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'r gyllideb sydd ar gael yn cyfyngu ar gynnydd y gwaith blaenoriaeth is, gan greu ôl-groniad o £27.5 miliwn o waith atgyweirio yn 2015. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd cynllun cyflawni'r Strategaeth yn lleihau'r ôl-groniad, drwy gyflymu'r broses o drosglwyddo a gwaredu eiddo sydd dros ben.

| Cynnig ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C3 | Y Defnydd o Adnoddau - Asedau:<br>• Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad asedau a sefydlu cronfa ddata addas i'r diben i gefnogi'r trefniadau hynny. |

## Mae technoleg gwybodaeth a'r rheolaeth ar wybodaeth yn cefnogi gwasanaethau, ond nid yw'r Cyngor yn gallu manteisio ar werth llawn y swyddogaethau galluogi hyn

### Mae'r Strategaeth TGCh wedi dyddio, ac nid yw wedi'i halinio'n glir â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor

71 Yn 2012, cynhaliom adolygiad o ddefnydd y Cyngor o dechnoleg gwybodaeth (TG/TGCh). Casgliad ein hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012, oedd bod y trefniadau cyfredol ar gyfer datblygu a defnyddio technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus (i wasanaethau). Serch hynny, nid oedd gan y Cyngor ymagwedd strategol, ac roedd angen i gynlluniau technoleg fod wedi'u halinio'n well ag amcanion gwella'r cyngor, a chefnogi cyflawni'r amcanion hynny'n well.

72 Mewn ymateb i hyn, datblygodd y Cyngor Strategaeth TGCh ar gyfer y cyfnod 2012-2016. Mae gweithredu'r Strategaeth TGCh wedi hyrwyddo defnydd ehangach a mwy effeithiol o dechnoleg ar draws y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth bellach yn bedair oed ac nid yw wedi cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae'r strategaeth TGCh felly wedi dyddio, o safbwynt technoleg a hefyd o safbwynt alinio â busnes y Cyngor. Mae hyn yn lleihau'r potensial i TGCh gyfrannu'n effeithiol at agenda effeithlonrwydd y Cyngor, neu at flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor.

73 Un o brif nodau Strategaeth TGCh y Cyngor ar gyfer 2012-2016 oedd 'cefnogi'r Strategaeth Ffocws Cwsmeriaid a'r Strategaeth Newid Sianelau drwy ddarparu mwy o gyfleusterau hunanwasanaeth ar y we'. Mae'r Cyngor wedi cyflawni hyn ac wedi darparu mwy o wybodaeth, a gwybodaeth o ansawdd gwell am ei wasanaethau, drwy sianelau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol. Prif ffynonellau gwybodaeth ar-lein/digidol y Cyngor ar gyfer ei wasanaethau yw ei wefan a'i gyfrifon Facebook a Twitter. Mae'r Cyngor wedi gwella'n sylweddol yr wybodaeth a'r cyfleusterau trafod sydd ar gael i ddefnyddwyr ei wefan, ar gyfer gwasanaethau penodol ac yn gyffredinol. Mae'r wefan yn glir ac yn hawdd ei defnyddio, ac fe gafwyd adborth cadarnhaol amdani mewn arolwg defnyddwyr a gynhaliwyd yn ddiweddar.

74 Elfen arall allweddol o'r Strategaeth TGCh yw 'sicrhau cymwysiadau busnes newydd er mwyn cyflawni cynlluniau gwella gwasanaethau allweddol a darparu rhyngwynebau priodol rhwng cymwysiadau'. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi profi problemau ac oedi wrth gaffael, gweithredu ac uwchraddio rhai systemau TG allweddol, fel Northgate Resource Link - system AD/Gyflogres gyfun y Cyngor. Mae'n hollbwysig i'r gwasanaeth TGCh ymateb mewn modd effeithiol i anghenion busnes; er mwyn cefnogi'r broses o wella gwasanaethau, mae'n rhaid cael craidd busnes effeithiol ac effeithlon o fewn y Cyngor. Mae TGCh yn rhan allweddol o'r craidd hwn. Mae'n galonogol fod cynigion ar gyfer darparu'r gwasanaeth TGCh yn y dyfodol wedi'u cynnwys yn y rhaglen ail-lunio.

## Mae datblygiadau a phenodiadau diweddar wedi codi proffil llywodraethu gwybodaeth a chynyddu effeithiolrwydd hynny'n gyffredinol, ond mae'r ffocws yn parhau i fod yn draddodiadol, a heb fod yn gyson â blaenoriaethau nac anghenion y Cyngor

75 Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth drwy benodi'r Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol yn ddiweddar, llunio Strategaeth Rheoli Gwybodaeth 2013-2016 a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am wybodaeth i'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid.

76 Un o'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yw Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG) y Cyngor, fel sy'n briodol, a'r Dirprwy UBRG sy'n arwain y Grŵp Rheoli Gwybodaeth Corfforaethol. Mae cyflwyno Adroddiad Rheoli Gwybodaeth blynyddol, ym mis Mai 2015, wedi helpu i godi proffil cyffredinol llywodraethu gwybodaeth ar draws y Cyngor.

77 Er gwaethaf y gwelliannau diweddar, mae rhai agweddau ar ddull y Cyngor o reoli gwybodaeth yn rhy draddodiadol ac yn canolbwyntio'n ormodol ar gydymffurfio â dyletswyddau statudol, fel y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data.  Er mwyn bod yn gwbl effeithiol, mae'n rhaid i'r Cyngor ehangu ei ymagwedd a chyflawni yn erbyn ei Strategaeth Rheoli Gwybodaeth. Er enghraifft, mae'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth yn cyfeirio at 'yr angen i wneud defnydd mwy effeithiol o wybodaeth er mwyn helpu i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau gwell', a'r gofyniad i 'reoli gwybodaeth fel bo'r Cyngor yn gallu cyflawni ei amcanion yn well'. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn rhoi esboniad clir ynghylch sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn.

78 Nid yw'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth yn gyson â'r themâu strategol yng Nghynllun y Cyngor ychwaith. Mae'r diffyg hwn yn golygu bod cyfle wedi'i golli i gefnogi'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor drwy sefydlu trefniadau a phrosesau a all ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol o ansawdd uchel. Serch hynny, mae'r ffaith bod materion gwybodaeth wedi'u cynnwys yn y rhaglen ail-lunio yn cynnig rhywfaint o sicrwydd.

| Cynnig ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C4 | Y Defnydd o Adnoddau - TGCh a Rheoli Gwybodaeth:<br>• Datblygu a gweithredu Strategaeth TGCh sy'n ategu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth, yn trafod anghenion busnes cyfredol a thymor canolig, ac sydd wedi'i halinio'n glir â blaenoriaethau strategol y Cyngor:<br>• Adnewyddu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth:<br>– alinio'r Strategaeth â blaenoriaethau strategol y Cyngor; ac<br>– egluro'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Strategaeth mewn modd effeithiol. |

# Mae'r Cyngor wedi hen sefydlu dull effeithiol o weithio mewn partneriaeth sy'n sicrhau perfformiad a chanlyniadau gwell

## Mae'r Cyngor yn cydweithio er mwyn cefnogi ei weledigaeth a'i amcanion cyffredin ehangach

79 Yn 2012, cytunodd y Cyngor ar Gompact, a atgyfnerthodd ei ymrwymiad i gydweithio. Yn y Compact, nodwyd pedwar maen prawf allweddol ar gyfer cydweithio, yn enwedig yr angen i gyfrannu mewn modd cynaliadwy at weledigaeth y Cyngor ar gyfer y fwrdeistref sirol.

80 Mae'r Cyngor yn realistig ynghylch yr heriau o'i flaen, ac ynghylch yr angen i gyflenwi gwasanaethau gyda chyllidebau llai. Mae ganddo safbwynt clir ynghylch dyfodol trefniadau partneriaeth a chydweithio, ac mae'n cydnabod y bydd angen newid y dull a ddefnyddiwyd i gyflenwi rhai gwasanaethau yn y gorffennol. Mae Cynllun y Cyngor wedi'i alinio'n agos â Chynllun Integredig Sengl Wrecsam, 'Ein Cynllun Ni ar Gyfer Wrecsam', a oruchwylir gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl). Mae'r Cyngor a'i bartneriaid ar y BGLl wedi cytuno ar dair blaenoriaeth ar gyfer 'Ein Cynllun Ni ar Gyfer Wrecsam', gan adlewyrchu blaenoriaethau unigol sy'n gyson ag amcanion a chanlyniadau sefydliadau partner.

81 Mae uwch dîm arwain y Cyngor wedi ymrwymo i ystod o bartneriaethau sy'n cyfrannu at weledigaeth y Cyngor, ac yn cymryd rhan yn weithredol yn y partneriaethau hynny. Er enghraifft:

- Mae uwch reolwyr yn cynrychioli'r Cyngor ar y BGLl, ac yn cymryd rhan yn weithredol ar y tri Bwrdd Cyflawni Partneriaeth sy'n atebol i'r BGLl;
- Cafodd y Cyd-uned Cymunedau Diogelach - un o is-grwpiau tactegol y Bwrdd Cyflawni Partneriaeth - ei sefydlu i ymdrin â materion sy'n ymwneud â diogelwch mewn cymunedau a chymdogaethau. Mae'r Uned yn cynnwys staff o Heddlu Gogledd Cymru, Swyddogion Diogelwch Cymunedol yr Heddlu a swyddogion o'r Cyngor o amrywiaeth o feysydd gwasanaeth, gan gynnwys Safonau Masnach, Trwyddedu, Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mae Aelod Arweiniol y Cyngor ar gyfer Cymunedau a Phartneriaethau yn cadeirio Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru - partneriaeth rhwng awdurdodau statudol ar draws y rhanbarth, ynghyd â'r sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru, a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

82 Yn ddiweddar, ailddatganodd y Cyngor ei ymrwymiad i gydweithio ar raddfa ranbarthol ac is-ranbarthol pan fydd modd dangos manteision hynny. Yn ogystal ag arwain neu gymryd rhan mewn mentrau rhanbarthol - fel y byrddau diogelu rhanbarthol, Tîm Dyletswydd Argyfwng Gogledd Ddwyrain Cymru a'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol, mae'r Cyngor yn defnyddio'i leoliad daearyddol i greu cysylltiadau ehangach. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn bartner gweithredol ar Gynghrair Merswy Dyfrdwy, partneriaeth sy'n cefnogi gweithgarwch economaidd strategol ar draws ffin Gogledd Cymru/Gogledd Orllewin Lloegr. Mae cymryd rhan yn y Gynghrair yn rhoi cyfle i'r Cyngor hyrwyddo a chodi proffil y fwrdeistref sirol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

83 Mae ymagwedd y Cyngor at gydweithio a gwaith partneriaeth yn hyrwyddo gwytnwch a chynaliadwyedd. Er enghraifft, trosglwyddodd y Cyngor ei swyddogaeth diogelwch cymunedol statudol i'r Bwrdd Cyflawni Partneriaeth. Drwy hyn, sicrheir bod y cynllun cyflawni cysylltiedig wedi'i alinio ag amcanion y BGLl. Rhoddir ystyriaeth ynddo hefyd i flaenoriaethau ehangach Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, a Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru (BCDGC). Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn disgwyl i'r dull hwn hyrwyddo mwy o gysondeb a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn gyffredinol.

## Mae cydweithio effeithiol yn helpu'r Cyngor i fanteisio i'r eithaf ar ei adnoddau

84 Mae mentrau partneriaethol a chydweithredol yn helpu'r Cyngor i reoli ei adnoddau mewn modd mwy effeithiol. Er enghraifft, wrth sefydlu'r Cyd-uned Cymunedau Diogelach, cafodd aelodau gweithredol y tîm eu cydleoli. Mae'r trefniant hwn, wedi'i gefnogi gan galendr cyffredin o ddigwyddiadau i gydgysylltu gweithgareddau'r partneriaid, a threfniadau mwy effeithiol i rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth leol, yn hyrwyddo dull ymatebol a chydgysylltiedig.

85 Cefnogir ymagwedd y Cyngor at bartneriaeth a chydweithio gan drefniadau rheoli perfformiad clir. Yn ystod 2014, buom yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r BGLl i hyrwyddo canlyniadau gwell i bobl leol - gan ganolbwyntio ar rôl y Cyngor a'i gyfraniad at y Bartneriaeth. Gwnaethom bedwar cynnig ar gyfer gwella, yn trafod craffu ar bartneriaeth, cynlluniau cyflawni, rheoli perfformiad ac ymgysylltu. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi ymateb mewn modd cadarnhaol i'n canfyddiadau, ac yn gwneud cynnydd da yn erbyn y materion a godwyd gennym. Er enghraifft, mae'r BGLl wedi mabwysiadu fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Gyda chefnogaeth swyddog o'r Cyngor, mae'r BGLl yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad a chynnydd.

86 Gyda chefnogaeth y Cyngor, mae'r BGLl hefyd wedi atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy ddatblygu Canolfan Ymgysylltu - 'Eich Llais - Wrecsam'. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl sy'n gweithio, yn byw, yn derbyn neu'n cyflenwi gwasanaethau yn y fwrdeistref sirol gael dweud eu dweud a dylanwadu ar wasanaethau lleol. Mae'r Ganolfan hefyd yn galluogi'r Cyngor a'i bartneriaid i ymgysylltu mewn modd mwy tryloyw a chyson, ar raddfa partneriaeth ac ar raddfa unigol.

## Mae mentrau cydweithredol yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i bobl leol

87 Mae mentrau partneriaethol a chydweithredol yn cefnogi ymdrechion y Cyngor i wella canlyniadau i ddinasyddion Wrecsam. Mae fframwaith y BGLl a'r Bwrdd Cyflawni Partneriaeth yn cynnig cyfleoedd i rwydweithio a dealltwriaeth well o flaenoriaethau sefydliadol pob partner. Mae hyn o gymorth i ysgogi cydweithio ehangach, a anogir yn sgil mentrau blaenorol llwyddiannus. Er enghraifft, yn 2014, datblygodd partneriaid y BGLl Ganolfan Triniaeth a Lles Alcohol Wrecsam dros dro er mwyn ymdrin â'r problemau gwrthgymdeithasol ac iechyd oedd yn cael eu hachosi wedi i bobl or-yfed yn ystod y Nadolig a'r gwyliau.

88 Pa bryd bynnag y byddai'r Ganolfan yn weithredol, byddai llai o bobl yn mynd i'r ward Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam, a byddai nifer y digwyddiadau gwrthgymdeithasol yn gostwng. Yn sgil y llwyddiant hwn, ysgogwyd y partneriaid i sefydlu Canolfan barhaol ym mis Rhagfyr 2015. Bu hefyd yn ysgogiad i'r Cyngor sefydlu cysylltiadau agosach â deiliaid trwydded yng nghanol tref Wrecsam - sy'n elwa ar economi saffach gyda'r nos, ac sy'n gallu cyfrannu at yr economi hwnnw hefyd.

89 Yn adolygiad a gwerthusiad blynyddol 2014-15 ar Wasanaethau Cymdeithasol, a luniwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), nodwyd canlyniadau gwell yn deillio o ystod o fentrau cydweithredol a anogai waith i adeiladu capasiti o fewn y gymuned. Er enghraifft, cynhaliodd y Cyngor beilot o gynllun asiant cymunedol mewn partneriaeth â chynghorau cymuned, a pharhaodd i roi cefnogaeth i glybiau cinio. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwella'r ddealltwriaeth o ddementia yn y gymuned mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Alzheimer ac wedi defnyddio ei gynllun grantiau mân cymunedol i gefnogi prosiectau graddfa fach yn y gymuned, fel cynlluniau cyfeillio a mentora cymheiriaid. Mae mentrau cydweithredol fel y rhain yn manteisio ar arbenigedd lleol ac yn ennyn brwdfrydedd, ac yn helpu'r Cyngor i ganolbwyntio ei adnoddau ar gynlluniau y mae defnyddwyr gwasanaeth yn fwy tebygol o'u deall a'u gwerthfawrogi.

90 Mae AGGCC hefyd wedi cydnabod cynnydd y Cyngor, ynghyd â phartneriaid statudol, o'r trydydd sector ac o'r sector annibynnol, wrth integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn ag anghenion cymhleth. Mae defnyddwyr gwasanaeth bellach yn elwa ar ystod o ddatblygiadau newydd, gan gynnwys gwasanaeth gofal canolraddol uwch a gwasanaethau ataliol yn y gymuned. Llongyfarchodd AGGCC y Cyngor am gyd-gyflenwi datblygiadau gwasanaeth arloesol a chreadigol, ac am barodrwydd y Cyngor i ddysgu yn sgil ei brofiadau o gydweithio wrth ddatblygu mentrau newydd. Fodd bynnag, anogodd AGGCC y Cyngor i chwilio am fwy o arbedion effeithlonrwydd drwy fabwysiadu dull mwy rhagweithiol o gydweithio â chynghorau eraill.

# Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio gwelliannau, adrodd ar berfformiad a rheoli risg yn gadarn ar y cyfan, ond ceir diffyg cysondeb mewn rhai meysydd

## Mae trefniadau cynllunio ar gyfer gwella yn cefnogi gweledigaeth ac agenda gwella'r Cyngor

91 Mae arweinyddiaeth gorfforaethol y Cyngor yn cyfleu gweledigaeth gyffredin glir a chyson, a'r gwelliannau y mae'n anelu i'w cyflawni. Mae aelodau o staff yn rhannu'r weledigaeth hon. Buom yn siarad ag ystod eang o staff ar bob lefel o awdurdod; roeddent yn gyson yn deall sut mae eu cyfraniadau'n cefnogi amcanion strategol y Cyngor, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mewn llawer o achosion, cyfeiriai staff at gysylltiadau rhwng eu hamcanion personol, a nodwyd yn eu PRCD blynyddol, ac amcanion adrannol a chorfforaethol.

92 Mae trefniadau cynllunio corfforaethol ac adrannol yn hyrwyddo datblygiad cynlluniau busnes deinamig sy'n cefnogi'r blaenoriaethau strategol, yn ysgogi gwelliant ac wedi'u perchnogi gan y staff. Mae strwythur cynlluniau gwasanaeth yn briodol, ac maent yn amlwg yn cefnogi amcanion gwella'r Cyngor. Cyflwynodd y Cyngor ddull tair haen o osod targedau yn ystod 2013-14 er mwyn rhoi esboniad cliriach ynghylch ei ddyheadau. Mae hyn yn helpu'r Cyngor i ddiffinio meysydd lle disgwylir gwelliant sylweddol, ac yn helpu rhanddeiliaid i adnabod y meysydd hynny.

## Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn ar y cyfan, ond ni chyflwynir data mewn modd clir a chyson bob amser

93 Mae'r Cyngor yn herio perfformiad gwael yn rheolaidd. Er enghraifft, cafwyd gwelliant sylweddol yng ngallu'r Cyngor i atal digartrefedd yn ystod 2013-14, yn dilyn ymarfer meincnodi a chyfnod o ganolbwyntio ar reoli perfformiad. Er bod perfformiad wedi gostwng rhyw fymryn yn ystod 2014-15, yr oedd yn dal i fod gryn dipyn yn well na pherfformiad y blynyddoedd cynt.

94 Mae adroddiadau ar berfformiad i'r Aelodau'n glir ac wedi'u cyflwyno'n dda ar y cyfan, er bod rhai eithriadau i hyn, a hynny'n bennaf mewn adroddiadau lefel gwasanaeth yn hytrach nag adroddiadau corfforaethol. Pan na fydd data yn glir, bydd Aelodau'n gofyn am eglurhad fel arfer. Bydd hyn weithiau'n achosi oedi ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar gapasiti'r swyddogion a'r Aelodau.

95 Mae'r Cyngor yn dibynnu ar ei system rheoli perfformiad ei hun. Mae'r system hon yn seiliedig ar daenlenni syml, yn hytrach nag ar system feddalwedd briodol, fel yr hyn a geir yn llawer o gynghorau Cymru. Mae system y Cyngor yn syml ac yn eithaf llafurddwys, ac yn dibynnu ar weithwyr i drosglwyddo data. Ceir mwy o berygl am wallau data yn gysylltiedig â'r trefniant hwn, ond mae'r wybodaeth a ddarperir i swyddogion ac Aelodau'n gadarn a chynhwysfawr ar y cyfan. Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau hyn ac yn parhau i ymchwilio i systemau priodol. Fodd bynnag, yn y cyfamser gellir parhau â'r trefniadau presennol.

## Mae'r Cyngor yn rhoi eglurhad clir i randdeiliaid ynglŷn â'i berfformiad, ar draws ystod o sianelau

96 Mae Adroddiadau Perfformiad Blynyddol y Cyngor (Canolbwyntio ar Ein Perfformiad) yn rhoi gwerthusiad cytbwys o'i berfformiad. Defnyddir amrywiaeth o drefniadau a phrosesau busnes yn sail wrth lunio'r Adroddiad Blynyddol. Mae'r trefniadau hyn yn helpu'r Cyngor i ddeall pa mor dda y mae'n perfformio a nodi meysydd sydd angen eu gwella.

97 Anogir mewnbwn gan y cyhoedd yn rhan o drefniadau'r Cyngor i gynllunio gwelliannau, a ddefnyddir yn sail wrth bennu'r gyllideb ac wrth osod targedau. Mae mentrau fel 'Eich Llais Chi Wrecsam' a'r cynllun 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' yn cynnig ffyrdd defnyddiol i atgyfnerthu'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid a dull cyson o roi adborth i randdeiliaid.

98 Mae'r Cyngor wedi cynyddu ei ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i raddau sylweddol, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad ac eitemau eraill o newyddion ynglŷn â'r Cyngor. Yn 2014-15, roedd ganddo 21,000 o ddilynwyr ar Twitter, o gymharu â chyn lleied â 3,100 yn 2011-12.

## Mae prif drefniadau rheoli risgiau y Cyngor yn gyffredinol addas i'r diben, ond nid ydynt wedi eu rhoi mewn grym yn gyson

99 Mae'r Cyngor yn deall pwysigrwydd rheoli risg mewn modd effeithiol, ac mae ganddo drefniadau cynhwysfawr ar gyfer rheoli risg. Mae prif gofrestr risg yn canolbwyntio ar risgiau strategol allweddol, a gefnogir gan bolisi rheoli risg ar wahân sy'n diffinio'r ymagwedd gyffredinol a chyfrifoldebau cysylltiedig Aelodau a swyddogion.

100 Mae'r Uwch Dîm Arwain yn gyfrifol am y gofrestr risg gorfforaethol, a ategir gan gofrestrau risg lefel gwasanaeth, y mae rheolwyr gwasanaethau'n eu cadw ochr yn ochr â'u cynlluniau gwella gwasanaeth. Mae grŵp rheoli risg yn cynnig her ganolog. Mae gan y Cyngor Swyddog neilltuol sy'n gyfrifol am gydgysylltu trefniadau rheoli risg ar draws y Cyngor; mae gan ddeilydd y swydd statws Ymarferydd Risg Cofrestredig achrededig. Darperir hyfforddiant gan y Cyngor hefyd i'r staff hynny sy'n gyfrifol am amseru risgiau'n gysylltiedig â gwasanaeth neu brosiect. Mae gan y rheolwyr y buom yn siarad â hwy ddealltwriaeth dda o drefniadau rheoli risg y Cyngor.

101 Caiff risgiau'n gysylltiedig â phrosiectau unigol o bwys eu rheoli'n dda - a hynny'n uniongyrchol gan y pennaeth gwasanaeth, os oes goblygiadau'n gysylltiedig â phrif risg. Mae'r Cyngor yn sylweddoli bod angen gwneud mwy o waith i sefydlu dull cyson a chadarn o reoli risg ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. Er enghraifft, ni nodir yn y polisi rheoli risg pa mor aml y dylid adolygu'r gwasanaeth, fel isafswm. Gall hyn annog anghysondeb, oherwydd efallai na fydd cofrestrau'n cael eu hadolygu hyd at yr un safon, neu yr un mor fynych.

| Cynnig ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C5 | Cynllunio ar gyfer Gwella:<br>• Sicrhau dull cyson a chadarn o reoli risg ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. |

# Ar y cyd â'i bartneriaid, mae'r Cyngor yn parhau i wella ei berfformiad a'i ganlyniadau ar draws y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth

102 Er bod y Cyngor yn wynebu her a phwysau cynyddol wrth geisio rheoli ei gyllideb, y mae wedi parhau i sicrhau canlyniadau gwell i bobl leol. Yn ystod 2014-15, llwyddodd y Cyngor i wella neu gynnal ei berfformiad ar gyfer 29 o'r 44 o ddangosyddion cenedlaethol - gwelliant o 26 y cant o gymharu â 2013-14. Cynyddodd y Cyngor hefyd nifer y dangosyddion yn y chwartel perfformio uchaf, o wyth i 11, a lleihau nifer y dangosyddion yn y chwartel isaf o 16 i 13.

103 Mae'r Cyngor hefyd wedi cynyddu cyfran y canlyniadau â blaenoriaeth lle cafwyd cynnydd da. Yn dilyn asesiad yn 2014-15, canfu'r Cyngor fod ei gynnydd yn erbyn 12 o'i 15 o ganlyniadau â blaenoriaeth yn Dda, gyda chanlyniadau sy'n gwella, o gymharu â 10 o 15 yn 2013-14. Adroddodd y Cyngor y cafwyd rhywfaint o gynnydd yn erbyn y tri chanlyniad â blaenoriaeth oedd yn weddill, ond na chafwyd unrhyw effaith fesuradwy ar y canlyniadau.

104 Mewn cyfnod o lymder cynyddol, lle mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch gwariant, mae'r canlyniadau hyn yn galonogol. Bydd ein Hadroddiad Gwella Blynyddol nesaf – fydd yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2016 - yn cynnwys mwy o fanylion am berfformiad gwasanaethau'r Cyngor.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad o welliant yn asesiad blaengar o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Y mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi crynodeb o'i waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru